Yr Aethnen Ddu

Enw cyffredin - Yr Aethnen Ddu

Enw Cymraeg - Aethnen Ddu

Enw gwyddonol - *Populus nigra subsp. betulifolia*



Disgrifiad

Yr Aethnen Ddu *Populus nigra subsp. betulifolia* yw un o goed brodorol prinnaf Prydain. Roedd yn ffynnu ar draws gorlifdiroedd gwastadeddau cefn gwlad Prydain mil o flynyddoedd yn ôl. Roedd yn boblogaidd iawn un tro, fel y gwelwyd mewn sawl peintiad clasurol o gefn gwlad Prydain, gan gynnwys The Hain Wain gan John Constable.

Un o nodweddion mwyaf amlwg y coed yw eu hymddangosiad mawr, afrosgo gyda changhennau enfawr, bwaog sy'n troi ar i lawr a boncyffion ag ymylon garw iddynt a rhisgl tywyll garw. Yn y gwanwyn mae gan y coed gwryw gwyddau bach nodweddiadol. Mae gan y coed benywaidd wyddau bach gwyrdd a ddilynir gan hadau bach gwlanog. Er mwyn i'r hadau'n egino rhaid iddynt orwedd yn dawel ar fwd noeth, gwlyb o fis Mehefin tan fis Hydref. Gellir lluosogi coed o doriadau.

Plannwyd aethnenni du ger ffermydd a phentrefi datblygol yn aml oherwydd fe'u hystyriwyd yn ddefnyddiol ar gyfer adeiladau a sgaffaliadau. Roedd y canghennau isaf, siapus yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer fframiau nenforch ac roedd ei gwydnwch yn ei gwneud yn ffefryn ymysg gwneuthurwyr wagenni, turnwyr powlenni a seiri. Yn gyffredinol, dim ond coed gwryw a blannwyd, oherwydd ystyriwyd y coed benywaidd yn niwsans oherwydd yr hylif nofiol gwyn a gynhyrchir ganddynt felly dim ond ychydig ohonynt sydd â'r cyfle i luosogi'n naturiol.

Mae aethnenni du'n tyfu ger cyrsiau dŵr, pyllau ac mewn gwrychoedd, yn enwedig ar orlifdiroedd gwastadeddau. Addaswyd cynefinoedd gwreiddiol y rhywogaethau hyn y tu hwnt i adnabyddiaeth ac nid yw'n bosibl bellach gwahanu coed brodorol o'r rhai a blannwyd blynyddoedd yn ôl.

Ers dechrau'r 19eg ganrif dinistriwyd ei chynefin naturiol yn raddol o ganlyniad i ddatblygu eiddo a ffermio dwys iawn a arweiniodd at rywogaethau'n diflannu o'n tirlun. Mae llawer o'r coed yn hen ac yn dirywio felly mae angen gweithredu i sicrhau bod y coed hyn yn goroesi.

Statws a Dosbarthiad Presennol

Rhyngwladol

Mae'r aethnen ddu Ewropeaidd wedi'i chyfyngu i Brydain, Iwerddon, Gogledd Ffrainc a rhannau o Orllewin Yr Almaen.

Y Deyrnas Unedig

Mae'r aethnen ddu'n frodorol i Gymru a Lloegr ac fe'i gwelir yn tyfu mor belled i'r gogledd â'r linell rhwng y Mersi a'r Humber gyda rhai rhywogaethau i'w gweld yn Ne Swydd Efrog a chyhyd â'r Afon Tees i'r gogledd. Yn 1993 disgrifiwyd hi fel y goeden brinnaf ym Mhrydain gyda dim ond 1000 o goed ar ôl yn y wlad, amcangyfrifwyd y byddai'r rhywogaethau hyn wedi diflannu mewn 20 mlynedd. Yn dilyn rhagor o arolygon manylach, cofnodwyd 6 - 7000 o goed pellach, gyda hanner ohonynt yn Nyffryn Aylesbury yn Swydd Buckingham. Y gymhareb ar gyfer coed gwryw i goed benyw yw 50:1. Darganfyddodd gwaith ymchwil genetig fod 65% o'r aethnenni du o'r un genoteip.

Cymru

Mae aethnenni du i'w cael yng Nghymru. Mae gan Ogledd Ddwyrain Cymru rhwng 250 - 300 o goed ond dim ond dwy o'r rhain sy'n fenywaidd.

Wrecsam

Yn dilyn apêl gyhoeddus ar gyfer cofnodion yr aethnenni du lleol a gwaith maes yn y 1990au hwyr mae oddeutu 50 ohonynt bellach ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam. Yn gyffredinol, gellir dod o hyd i'r coed ar ffin gorlifdir y Dyfrdwy i'r dwyrain o Wrecsam. Fodd bynnag maent i gyd yn wrywaidd.

Statws Cyfreithiol

Ni yw'r aethnen ddu'n rhywogaeth a ddiogelir ond gellir diogelu coed unigol gan Orchmynion Cadw Coed. Gellir diogelu rhai coed ymhellach oherwydd eu bod yn tyfu o fewn ardaloedd a ddiogelir, fel gwarchodfeydd natur, safleoedd bywyd gwyllt, neu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Neilltuol. Efallai bydd angen trwydded torri coed gan y Comisiwn Coedwigaeth i dorri coed mawr. Mae'r aethnenni du hefyd ar y rhestr o rywogaethau sy'n derbyn pwyntiau a ddefnyddir ar gyfer asesu gwrychoedd dan Reoliadau Gwrychoedd 1997.

Ffactorau presennol sy'n achosi colled neu ddirywiad

- *Torri coed at ddibenion datblygu ac adeiladu ffyrdd*
- *Torri oherwydd pryderon diogelwch*
- *Symud coed sydd wedi syrthio'n annisgwyl a fyddai fel arall yn goroesi yn y fan a'r lle neu'n atgynhyrchu o'r boncyff.*
- *Diffyg atgynhyrchu oherwydd diffyg coed benywaidd yn yr ardal.*
- *Colli cynefin addas (h.y. gorlifdiroedd wedi'u traenio ar gyfer amaethyddiaeth);*
- *Croesiad gydag aethnenni anfrodorol.*
- *Poblogaeth wedi'i gwasgaru'n eang gan ei gwneud hi'n anodd gwarchod y safle*

Gweithred Bresennol

Gweithred Genedlaethol

- *Mae Grŵp Cadwraeth yr Aethnen Ddu a sefydlwyd yn 1996 yn anelu at ddod ag ymarferwyr at ei gilydd i rannu profiadau a syniadau a chynhyrchu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cenedlaethol ar gyfer yr aethnen ddu.*
- *Gwnaeth prifysgolion Nottingham a Chaeredin waith ymchwil genetig fel rhaglen ryngwladol sy'n astudio nifer a dosbarthiad yr aethnenni du.*
- *Mae gwaith profi DNA oddeutu 600 o aethnenni du yn cael ei wneud ym Mhrifysgol Nottingham mewn partneriaeth ag Asiantaeth yr Amgylchedd. Cyhoeddwyd canlyniadau'r dadansoddiad cyntaf gan Fiona Cooper sef 'Astudiaeth o'r amrywiaeth genetig a geir mewn Populus nigra subs. betulifolia yn rhan uchaf o'r Afon Hafren yn y DU gan ddefnyddio marcwyr AFLP'.*
- *Mae sawl grŵp aethnen ddu lleol yn gweithio'n galed i ddiogelu, cynnal a hyrwyddo'r coed hyn yn eu hardal nhw - yn bennaf Sir Gaer, Norfolk, Swydd Gaergrawnt, Swydd Hwntdwn a Swydd Gaerloyw.*
- *Ychwanegir coed a driniwyd at y gronfa ddata ganolog.*

Gweithred Leol

- *Mae swyddfa'r Comisiwn Coedwigaeth yng Nghlawdd Newydd yn casglu cofnodion yr holl aethnenni du yng Ngogledd Ddwyrain Cymru.*

- *Rhestrwyd 50 ohonynt ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam a nodwyd lleoliad a chyflwr pob un.*
- *Plannu aethnenni du ar hyd yr Afon Dyfrdwy a'r Afon Gwenfro.*
- *Tyfir cannoedd o doriadau o goed brodorol profedig ac maent yn barod i'w hailblannu yn ardaloedd y coed gwreiddiol. Ar hyn o bryd, yng Ngogledd Ddwyrain Cymru, mae Dyfroedd Alun (Wrecsam) Coleg Llysfasi (Sir Ddinbych) a Choleg Celyn (Sir y Fflint) yn tyfu toriadau a gymerwyd o goed lleol ar gyfer eu plannu. Mae gan Sir Gaer ddwy feithrinfa aethnenni du.*



- *Cysylltu a gweithio gyda grwpiau CGBLl cyfagos fel Sir Gaer.*

Nodau

1	***Cynnal ac annog diogelu aethnenni du presennol.***
2	***Sefydlu maint a dosbarthiad presennol aethnenni du yn Wrecsam.***
3	***Annog y coed presennol i atgynhyrchu'n naturiol a phlannu coed newydd.***
4	***Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd yr aethnen ddu.***

Aethnenni du ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam 2004



Cyswllt â chynlluniau eraill

Cynllun Gweithredu Cynefinoedd coetiroedd a hen goed

Cynllun Gweithredu Cynefinoedd coetiroedd lled-naturiol

Cynllun Gweithredu Cynefinoedd afonydd, nentydd a chamlesi

Cynllun Gweithredu Rhywogaethau Aethnenni Du Sir Gaer

Cyfeiriadau

Preston, C.D., Pearman D.A. & Dines,

T.D. (2002) New Atlas of the British and Irish Flora.

Oxford University Press

Byrfoddau

AyA
Asiantaeth yr Amgylchedd

NEWPBG
Grŵp Bioamrywiaeth Planhigion Gogledd-Ddwyrain Cymru

CBSW
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

BSBI
Cymdeithas Fotanegol Ynysoedd Prydain

CC
Comisiwn Coedwigaeth

YBGGC

Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru

CGBLl
Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol

BTCV
Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain

GBW
Grŵp Bioamrywiaeth Wrecsam

Gweithrediadau Arfaethedig - Aethnen Ddu

	Nodau	Partneriaid	Targed
Polisi a Deddfwriaeth			
Sicrhau y diogelir aethnenni du presennol nenni	1	CBSW	Dim colled net o'r aeth-du o ganlyniad i ddatblygiadau.
Ystyried diogelu rhai rhywogaethau drwy gychwyn a defnyddio Gorchmynion Cadw Coed	1	CBSW	O 2004
Diogelu a Rheoli Rhywogaethau/Safleoedd			
Gosod ffens neu fel arall diogelu coed sy'n marw neu wedi disgyn i annog atgynhyrchiad naturiol a thyfiant crachgoed.	1, 3	CBSW Tirfeddianwyr	O 2004
Lluosogi a phlannu toriadau a gymerwyd o goed lleol sy'n bodoli eisoes	3	CC, Coleg Llysfasi Coleg Celyn, BTCV CWT,AyA	O 2004 / Cyfredol
Archwilio safleoedd ar gyfer plannu coed newydd.	3	CBSW, YBGGC Wardeiniaid Coed	Cyfredol CGC, AyA,
Cyfathrebu a Chyhoeddusrwydd			
Datblygu cysylltiadau cenedlaethol parhaus â phrosiectau aethnenni du yn seiliedig ar waith genetig ac archwilio'r stoc drosglwyddo o amgylch y wlad	1, 2, 3, 4	CBSW, GB Sir Gaer,GBW	O 2004
Rhoi gwybod i'r cyhoedd o gyflwr rhywogaethau ac o'r gofal sydd ei hangen arnynt	1, 2, 3, 4	CBSW, CC, Wardeiniaid Coed	Erbyn 2007
Cynnig cyngor am luosogi a phlannu coed newydd	3	CBSW, CC,GBW	Cyfredol
Annog aelodau o'r cyhoedd i anfon cofnodion at y Swyddog Bioamrywaith o leoliad yr aethnenni du hyn	2, 4	CBSW, YBGGC, GBW	O 2004
Cynnal digwyddiadau codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar gyfer adnabod y coed hyn.		NEWPG,GBW	Un digwyddiad yn ystod cyfnod y cynllun
Ymchwil a Monitro			
Creu a chynnal cofrestr gyfredol o'r holl goed, safleoedd hanesyddol a thirfeddianwyr.	2	CBSW,BSBI,CC	O 2004 genetig
Ystyried olion bysedd genetig er mwyn sefydlu sylfaen genetig y boblogaeth.	2	CBSW,CCGC, Prifysgol Nottingham	
Cofnodi /gwirio parhaus pan fyddwch yn gweld coed newydd, a chofnodi eu lleoliad ar GIS.	2	CBSW,BSBI,CC	O 2004

Awdur: Emily Meilleur
Lluniau: Ruth Benson

Gwybodaeth bellach

Swyddog Bioamrywiaeth
Is-Adran yr Amgylchedd, Adran Gynllunio,
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam,
Stryt y Lampint,
Wrecsam, LL11 1AR

Ar gael mewn fformatiau eraill
Ffoniwch 01978 292019

Ffôn: 01978 292019
Ffacs: 01978 292502
Ebost: bioamrywiaeth@wrecsam.gov.uk
Gwefan: www.wrecsam.gov.uk/cynllunio